Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol
De-Orllewin Cymru
South West Wales
Regional Contractors Framework

# Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru 2024

## Digwyddiad Briffio Cyflenwyr

### Parc y Scarlets, Llanelli, Dydd Mercher 10fed o Ebrill 2024

### Arddangoswyr yn Mynychu

**Busnes Cymru-** Mae Busnes Cymru yn darparu'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad sydd eu hangen arnoch i gynnal a thyfu eich busnes. Mae amrywiaeth o gymorth ar gael gan gynnwys mynediad at wybodaeth, gweithdai, ar-lein, dros y ffôn, a chyngor rhithwir wyneb yn wyneb, yn ogystal â chymorth arbenigol gan gynnwys –

- Cynllunio busnes a chynhyrchiant
- Rheolaeth ariannol
- Cynaliadwyedd
- Masnach ryngwladol
- AD
- Tendro
- Rheoli Perthynas Twf Uchel
- AD/Sgiliau/Mentora
- Cynaliadwyedd/Datgarboneiddio

**Tendro Busnes Cymru-** Os yw eich busnes yn fenter fach neu ganolig (yn cyflogi hyd at 250) ac eisiau gwella ei siawns o ennill contractau sector cyhoeddus a phreifat, efallai y gall Busnes Cymru - Tendro helpu.

Gallwn ni:

- esbonio sut mae system brynu'r sector cyhoeddus yn gweithio.
- eich helpu i ddeall yn well yr hyn y mae prynwyr mawr yn chwilio amdano mewn cyflenwr.
- cynnig cymorth a chyngor 1-i-1 ar ddatblygu tendrau ar gyfer contractau neu fframweithiau penodol.
- eich helpu i ddeall sut i weithio ar y cyd â busnesau bach a chanolig i wneud cais am gontractau mwy.

- helpu i'ch arwain drwy'r systemau tendro electronig a ddefnyddir gan sefydliadau prynu'r sector cyhoeddus yng Nghymru.
- eich helpu i ddechrau arni ar gwerthwchigymru.llyw.cymru sef y wefan lle mae'r rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn hysbysebu eu busnes.

**Busnes Cymru** – Mae tendro am ddim i holl fentrau bach a chanolig Cymru.

Hafan | Busnes Cymru (llyw.cymru)

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 03000 603 000.

**Gyrfa Cymru-** Mae Gyrfa Cymru yn darparu amrywiaeth o wasanaethau am ddim i gyflogwyr yng Nghymru a gall ddarparu cymorth ar gyfer recriwtio, achosion o ddileu swyddi, a gweithio gydag ysgolion yn eich ardal.

Gweithio gydag ysgolion

Gyda chefnogaeth Gyrfa Cymru fe allech chi wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc, tra'n dod â budd i'ch busnes.

Cefnogaeth mewn achos o ddileu swydd i gyflogwyr

Darganfyddwch y cymorth rhad ac am ddim rydym yn ei gynnig i'r rhai sydd dan fygythiad o golli eu swyddi.

Cefnogaeth ReAct+

Dysgwch am becyn ReAct+ i'ch cefnogi gyda recriwtio. Mae'r ddolen hon yn mynd i wefan Busnes Cymru.

Cyflogi pobl ifanc

Dysgwch am reoliadau ar gyfer cyflogi pobl ifanc gan gynnwys oriau gwaith, oedran a chyflog.

Prentisiaethau- gwybodaeth i gyflogwyr

Dysgwch am gyllid ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru a sut i hysbysebu swyddi gwag.

Cyflogi pobl anabl

Mae Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl, a gyflogir gan Lywodraeth Cymru, yn darparu canllaw ymarferol i gyflogwyr ledled Cymru ar gyflogi pobl anabl.

https://gyrfacymru.llyw.cymru/cyflogwyr

**Cymunedau am Waith a Mwy Sir Gaerfyrddin**- cefnogi unigolion i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Prif flaenoriaeth y rhaglen yw lleihau nifer yr unigolion sy'n ddi-waith trwy gynnig cefnogaeth bersonol, creu cyfleoedd a fydd yn uwchsgilio unigolion trwy gymorth sgiliau sylfaenol a hyfforddiant galwedigaethol, rhagflas gwaith, lleoliadau, a chefnogaeth i gyflawni hyfforddiant a swyddi cynaliadwy.

Manylion cyswllt Cymunedau am Waith a Mwy

E-bost: c4wplus@sirgar.gov.uk, neu

Ffôn: 01554 744 303.

**Tîm Datblygu Economaidd Cyngor Sir Caerfyrddin**- wrth law i roi gwybodaeth am eu hymrwymiad parhaus i ddatblygu economaidd a chefnogi busnesau Cyngor Sir Caerfyrddin, gyda darparu'r grantiau canlynol a ariennir gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.

Nod y ddau grant yw cryfhau ecosystemau entrepreneuraidd lleol a chefnogi busnesau ar bob cam o'u datblygiad i ddechrau, cynnal, tyfu ac arloesi, gan gynnwys trwy rwydweithiau lleol.

**Grant Cychwyn Busnes**

Diben y Gronfa Cychwyn Busnes yw cefnogi creu busnesau newydd yn y sir, gan arwain yn uniongyrchol at greu swyddi, a gwella'r economi leol felly.

Bydd y Gronfa yn gynllun grant busnes, a fydd yn cynnwys cymorth tuag at brosiectau gwariant cyfalaf a gwariant refeniw arbenigol (heb gynnwys costau rhedeg parhaus), lle mae swyddi newydd yn cael eu creu a/neu eu diogelu oherwydd y cymorth ariannol.

**Grantiau Twf**

Bydd y grant yn cefnogi busnesau lleol a Mewnfuddsoddwyr i dyfu, ffynnu a bod yn gynaliadwy, a fydd yn arwain at greu neu ddiogelu swyddi ledled y Sir, gan wella'r economi leol. Er y rhoddir blaenoriaeth i greu swyddi newydd, cydnabyddir bod diogelu swyddi o dan yr hinsawdd economaidd bresennol hefyd yn hynod o bwysig a chaiff ei ystyried yn unol â hynny fesul achos.

Mae'r **Prosiect Ymgysylltu â Busnes** yn fenter sy'n ymroddedig i feithrin cydweithrediad a thwf ymhlith busnesau yn Sir Gaerfyrddin. Ein nod yw cryfhau ein cymuned fusnes leol. Ein bwriad yw grymuso busnesau o bob maint trwy ystod o gefnogaeth gan gynnwys: -

- Bwrsariaeth pad lansio Busnes
- Gweithdai sydd ar ddod
- Cael contractau sector cyhoeddus
- Cefnogaeth arbenigol un-i-un
- Rhwydweithio
- Symleiddio Ariannu
- Dweud wrthym beth rydych chi eisiau
- Partneriaid Cefnogi

**Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru** yw'r llais unedig sector amgylchedd adeiledig Cymru, sy'n cynrychioli pob rhan o'i gadwyn gyflenwi. Rydym yn gweithio gyda phob elfen wahanol o adeiladu gyda sefydliadau mawr a bach yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i helpu'r diwydiant i wella ei berfformiad i ddarparu gwell ansawdd a gwerth am arian i'w gleientiaid a defnyddwyr terfynol.

**CITB** yw bwrdd hyfforddi'r diwydiant ar gyfer y sector adeiladu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ein gwaith ni yw helpu'r diwydiant adeiladu i ddenu talent a chefnogi datblygu sgiliau, i adeiladu Prydain well. Ein pwrpas yw cefnogi'r diwydiant adeiladu i gael gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol, nawr ac yn y dyfodol. Beth rydym yn ei wneud:

- Hysbysu a galluogi'r bobl iawn i mewn i adeiladu
- Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion
- Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi a datblygu ei weithlu

Gwefan: https://www.citb.co.uk/cy-gb/

**Cysylltiadau Allweddol ar gyfer De Orllewin Cymru:**


Helen Murray –Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, a Sir Benfro
Ffôn: 07500 096 107
E-bost: Helen.Murray@citb.co.uk

Jon Davies – Abertawe a De Powys
Ffôn: 07824 865 551
E-bost: jon.davies@citb.co.uk

Ross Baker – Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd Port Talbot
Ffôn: 07786 334 801
E-bost: ross.baker@citb.co.uk

Peter Carey
Ymgynghorydd Cymorth i Gyflogwyr Newydd-ddyfodiaid ar gyfer y rhanbarth
Ffôn: 07778 429 151
E-bost: peter.carey@citb.co.uk


**Manteision Cymunedol / Gwerth Cymdeithasol** bydd cynrychiolwyr arbenigol o'r Awdurdodau Lleol rhanbarthol wrth law i drafod gofynion budd manteision cymunedol a gwerth cymdeithasol y fframwaith newydd ac amlinellu'r cymorth sydd ar gael i'r sector gyflawni a monitro targedau ystyrlon.

**Mae Cynllun Rhannu Prentis Sgiliau Adeiladu Cyfle** yn darparu gwasanaeth sy'n cefnogi oedolion ifanc i gyflogaeth gynaliadwy yn y diwydiant adeiladu. Bydd hyn yn helpu pobl ifanc i ddatblygu eu gyrfaoedd a'u siawns o gael gwaith. Byddant yn cael y cyfle i ennill prentisiaethau ac ennill cymwysterau ar lefel 2, 3 ac i brentisiaethau uwch ar lefel 4/5.

Mae Sgiliau Adeiladu Cyfle yn cyflogi Prentisiaid a rennir yn y crefftau canlynol:

**Gosod Brics, Plastro, Gwaith Saer, Trydanol, Plymio, Peintio ac Addurno, Cynnal a Chadw/Aml-Sgil, Technegol.**

Mae’r Cynllun Rhannu Prentis yn caniatáu i brentisiaid gwblhau rhaglen brentisiaeth lawn trwy weithio gyda nifer o gyflogwyr gwahanol, i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddod yn gymwys.

Cynllun Rhannu Prentis - Adeiladu Cyfle

**Hwb ar y Safle ar gyfer y Diwydiant Adeiladu** Lansiodd Sgiliau Adeiladu Cyfle, ar ran y Rhanbarth, raglen newydd arloesol yn 2021 sy’n cynnig 1,600 o leoliadau gwaith ar y safle wedi’u hariannu’n llawn yn y diwydiant adeiladu dros y pedair blynedd nesaf.

Wedi'i ariannu gan Gomisiwn Profiad ar y Safle Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB), mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i helpu i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau yn y diwydiant adeiladu a bydd yn caniatáu i Cyfle ddatblygu'r Hwb Hyfforddiant adeiladu cyntaf yn Ne Orllewin Cymru ar draws y pum ardal Awdurdod Lleol o fewn y Rhanbarth.

Mae'r rhaglen yn cynnig Cyfleoedd Adeiladu i 1,600 o unigolion gan gynnwys lleoliadau profiad ar y Safle a hyfforddiant cysylltiedig, a chyfleoedd ailsgilio. Mae rhaglen fentora hefyd wedi'i chynllunio i helpu unigolion i gymryd y cam nesaf at yrfa ym maes adeiladu, gan sicrhau eu bod yn elwa o'r Profiad Ar y Safle, a fydd hefyd yn cefnogi'r rhaglen.

Mae'r rhaglen yn agored i unigolion o unrhyw oedran sy'n ystyried gyrfa mewn adeiladu naill ai fel swydd gyntaf neu drwy ailhyfforddi o broffesiwn gwahanol. Bydd yn ceisio hybu symudedd cymdeithasol a darparu cyfleoedd i'r rhai a dangynrychiolir o fewn y diwydiant, yn ogystal â'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar hyn o bryd.

Hwb ar y Safle- Adeiladu Cyfle

**Mae Cymdeithas Hyfforddiant Adeiladu Sir Gaerfyrddin Cyfyngedig** (CHASG) yn gymdeithas hyfforddi a sefydlwyd yn Sir Gaerfyrddin ar y cyd ag ystod amrywiol a deinamig o gwmnïau adeiladu a darparwyr hyfforddiant lleol.

Nod y bartneriaeth wirfoddol yw cynnig seilwaith cydgymorth i sefydliadau sy'n aelodau ac mae'n darparu strwythur cymorth ar gyfer anghenion hyfforddi a datblygu aelodau ei chymdeithasau, yn ogystal â chyfleoedd, hyfforddiant a chyngor i brentisiaid a hyfforddeion yn y diwydiant adeiladu ar draws rhanbarth Sir Gaerfyrddin.

Mae CHASG yn gweithio'n agos gyda cholegau a darparwyr hyfforddiant lleol i nodi anghenion hyfforddi o fewn y diwydiant, a lle bo'n bosibl, cymeradwyo cyflawniad cymwysterau cydnabyddedig i hyfforddiant ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

https://www.cctal.co.uk/

**Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe** yn fuddsoddiad o hyd at £1.3 biliwn mewn portffolio o brosiectau a rhaglenni mawr ar draws Dinas-ranbarth Bae Abertawe, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Dros oes 15 mlynedd y portffolio, bydd y Fargen Ddinesig yn rhoi hwb o £1.8 biliwn o leiaf i'r economi ranbarthol, tra'n creu dros 9,000 o swyddi.

Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn cael ei harwain gan y pedwar awdurdod lleol rhanbarthol - Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Abertawe, Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Penfro - ynghyd â Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a phartneriaid yn y sector preifat.

https://www.bargenddinesigbaeabertawe.cymru/

citydeal@sirgar.gov.uk

**Mae Canolfan Arloesi Adeiladu Cymru (CAAC) Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant** wedi'i hariannu i gynnig rhaglen hyfforddi newydd o'r enw Construct Net Zero Cymru (CNZC). Mae CNZC yn cynnwys dau brosiect nodedig a fydd yn canolbwyntio ar ehangu ein dealltwriaeth o'r agenda werdd yn ogystal â datblygu sgiliau hyfforddi ymarferol.

Mae **Nid Busnes Fel Arfer** yn ddull ymarferol o hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth o'r egwyddorion a'r technegau a ddefnyddir wrth ddylunio, adeiladu a chynnal a chadw amrywiaeth o ddulliau adeiladu carbon isel, gan ganolbwyntio'n benodol ar ffabrig yr adeilad. Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i gyfranogwyr o Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Mae **Effeithlonrwydd Heb Gyfaddawd** yn brosiect hyfforddi Passivhaus a fydd yn creu mwy o ymwybyddiaeth o'r egwyddorion a'r technegau a ddefnyddir wrth ddylunio, adeiladu a chynnal a chadw amrywiaeth o gynlluniau presennol yn Sir Gaerfyrddin.

https://cwic.wales/cy/construct-net-zero-cymru/